



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cylchlythyr Gaeaf 2023 Winter Newsletter 2023




Gaeaf 2023

Croeso cynnes i gylchlythyr chwarterol Comisiynydd y Gymraeg. Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen ac mae croeso i chi ei rannu gyda chydweithwyr a chyfeillion.

Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg





Wrth i chi ddarllen y neges hon bydd ein hymgyrch ddiweddu blwyddyn yn fyw. Nod yr ymgyrch eleni yw annog pobl i ddefnyddio eu Cymraeg bob dydd mewn amryw sefyllfaoedd: yn y gwaith, gyda busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, ar y cae chwarae, ac yn yr ysgol. I gyd-fynd â'r ymgyrch mae cyfres o ffilmiau byrion wedi eu creu a [phecynnau adnoddau](#) ar gyfer ein partneriaid i'w defnyddio. Cofiwch ddilyn ein sianeli i weld mwy a chwiliwch am [#DefnyddiaDyGymraeg](#) i weld beth mae pawb yn ei wneud – a chofiwch rannu!



Adroddiad Sicrwydd



Mae ein Hadroddiad Sicrwydd diweddaraf, [Codi'r Bar](#), yn gyfle i adlewyrchu ar y ffordd y mae sefydliadau yn meddwl am y Gymraeg wrth lunio polisiau ac wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau yn y Gymraeg. Un elfen bryderus ddaeth i'r wyneb oedd fod canran sylweddol o siaradwyr Cymraeg wedi cael profiad o rywun arall yn eu hatal rhag siarad yr iaith yn eu bywydau bob dydd. Er hynny, mae'n galonogol nodi fod profiadau pobl o dderbyn gwasanaethau Cymraeg, yn enwedig ar wefannau ac yn ysgrifenedig, yn gyffredinol wedi gwella.



Winter 2023

A very warm welcome to the Welsh Language Commissioner's quarterly newsletter. I hope you enjoy reading it and feel free to share with colleagues and friends.

Defnyddia dy Gymraeg campaign



As you read this, our end of year campaign will be in full flow. The aim of this year's campaign is to encourage people to use their Welsh every day in various situations: at work, with businesses, public services, on the playing field, and at school. To accompany the campaign a series of short films have been created and [resource packs](#) for our partners to use. Remember to follow our channels to see more and search for [#DefnyddiaDyGymraeg](#) to see what everyone is doing – and don't forget to share!

Assurance Report

Our most recent Assurance Report, [Raising the Bar](#), gives us an opportunity to reflect on the way organisations consider the Welsh language when formulating policies and when planning and delivering services in Welsh. One worrying element that came to light was that a significant percentage of Welsh speakers had experienced someone else preventing them from speaking the language in their everyday lives. However, it is encouraging to note that people's experiences of receiving Welsh language services, especially on websites and in writing, have generally improved.

Podlediad newydd



Wrth i Efa Gruffudd Jones agosáu at ddiwedd ei blwyddyn gyntaf fel Comisiynydd y Gymraeg, fe gafodd hi sgwrs gyda Hanna Hopwood mewn podlediad newydd lle mae'n adlewyrchu ar y deuddeg mis diwethaf, trafod rhai o'r uchafbwyntiau ac yn ystyried ei dyheadau am y cyfnod sydd i ddod. Gallwch wrando ar eich sianeli podlediad arferol drwy chwilio am Comisiynydd y Gymraeg neu cliciwch [yma](#).

New podcast

As Efa Gruffudd Jones approaches the end of her first year as Welsh Language Commissioner, she had a conversation with Hanna Hopwood. In a new podcast, she reflects on the last twelve months, discusses some of the highlights and considers her aspirations for the future. You can find it on your usual podcast stations by searching for Welsh Language Commissioner or click [here](#).



Ymchwil dysgwyr

Yn ddiweddgar, wrth ymweld ag Ysgol Gyfun Ystalyfera, fe wnaethom gyhoeddi canlyniadau gwaith ymchwil newydd a oedd yn dangos bod siaradwyr Cymraeg rhwng 16-18 oed yn gweld yr iaith yn fanteisiol i'w gyrfaeodd a bod cyfleoedd i astudio drwy'r Gymraeg yn bwysig iawn iddynt.

Fel rhan o'r ymchwil casglwyd ymatebion gan dros 1,000 o bobl ifanc gyda'r bwriad o ddysgu am farn a phrofiadau dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn ysgolion a cholegau addysg bellach ledled Cymru. Y nod oedd darganfod beth oedd eu rhesymau dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, eu barn am y ddarpariaeth a'u bwriad o safbwyt eu haddysg a'u gyrfaeodd yn y dyfodol. Gallwch ddarllen mwy am yr ymchwil fan hyn.

Learner research

During a recent visit to Ysgol Gyfun Ystalyfera, we published the results of new research which showed that Welsh speakers between the ages of 16-18 see the language as advantageous for their careers and that opportunities to study through Welsh are very important for them.

As part of the research, responses were collected from over 1,000 young people with the intention of learning about the views and experiences of post-16 learners in Welsh-medium or bilingual education in schools and further education colleges throughout Wales. The aim was to find out what their reasons were for choosing Welsh-medium education, their opinion about the provision and their intention in terms of their future education and careers. You can read more about the research [here](#).





Seminar safonau recriwtio

Fel sydd yn cael ei nodi'n gyson yn ein hadroddiadau mae heriau ynglwm â recriwtio yn benodol i gyrrf sydd yn dod o dan y Safonau. Yn gynharach yn y flwyddyn cynhaliwyd Seminar Safonau Recriwtio lle trafodwyd yr heriau a'r cyfleoedd sydd yn bodoli wrth fynd ati i recriwtio siaradwyr Cymraeg. Mae recordiad o'r seminar bellach ar gael i'w gwyllo ar ein gwefan [fan hyn](#) ynghyd â chopi o adroddiad Cwmni laith.

Tribiwnlys yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg

Yn dilyn gwrandawiad, cadarnhaodd Tribiwnlys y Gymraeg ddyfarniad a wnaed mewn ymchwiliad gorfodi gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi torri safonau'r Gymraeg drwy fethu ag ystyried yn gydwybodol effaith ei benderfyniad i ad-drefnu tair ysgol gynradd yn ei ardal ar y Gymraeg mewn dogfen ymgynghori ar y mater.

Mae'r dyfarniad yn un arwyddocaol a fydd yn arwain at well ystyriaeth i'r Gymraeg mewn penderfyniadau polisi a strategol. I wybod mwy am yr achos ac i ddarllen y dyfarniad yn llawn ewch i'n [gwefan](#).

Recruitment standards seminar

As is consistently noted in our reports there are challenges associated with recruitment, especially for organisations that fall under the Welsh Language Standards. Earlier in the year a Recruitment Standards Seminar was held where the challenges and opportunities that exist when recruiting Welsh speakers were discussed. A recording of the seminar is now available to watch on our website [here](#) along with a copy of the report by Cwmni laith.

Tribunal supports Welsh Language Commissioner

Following a recent hearing, the Welsh Language Tribunal upheld a ruling that was made following an enforcement investigation by the Welsh Language Commissioner.

The Commissioner ruled that Neath Port Talbot Council had breached Welsh language standards by failing to conscientiously consider the impact of its decision to reorganise three primary schools in its area on the Welsh language in a consultation document on the matter.

The judgment is a significant one which will lead to better consideration of the Welsh language in policy and strategic decisions. To know more about the case and to read the judgment in full visit our [website](#).



Elusen y flwyddyn

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, cyhoeddwyd mai NSPCC Cymru fydd yr elusen am eleni. Byddwn yn cydweithio gyda'r elusen drwy gydol y flwyddyn er mwyn codi arian i hyrwyddo a datblygu'r gwasanaethau Cymraeg hanfodol gai'f eu cynnig. Fel man cychwyn, bu aelodau o staff y Comisiynydd yn rhedeg hanner marathon Caerdydd a llwyddwyd i godi dros £900 i'r elusen – dechrau da!

Charity of the year

During the National Eisteddfod in August, it was announced that NSPCC Cymru would be the Commissioner's chosen charity for this year. We will collaborate with the charity throughout the year in order to raise money to promote and develop the essential Welsh language services that are offered. To kick things off, members of the Commissioner's staff ran the Cardiff half marathon and managed to raise over £900 for the charity – a great start!



Am fwy o wybodaeth am ein gwaith cofiwch ymweld â'n gwefan:
comisiynyddygymraeg.cymru
neu dilynwch ni ar Twitter, Facebook ac Instagram ac os am anfon neges atom y cyfeiriad e-bost yw:
cyfathrebu@cyg-wlc.cymru.

For further information about our work please visit our website:
welshlanguagecommissioner.wales
or follow us on Twitter, Facebook or Instagram and if you want to get in touch e-mail us on:
cyfathrebu@cyg-wlc.wales.





Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner